# Gwasanaeth Sul yr Urdd 2021

### Thema: Cydraddoldeb – Rôl merched yn gweithio dros heddwch a chyfiawnder

### Lluniwyd gan Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA)

Eleni, cynigir deunydd ar gyfer Gwasanaeth Sul yr Urdd ar ffurf sydd ychydig yn wahanol. Awgrymir math syml o becyn cymorth gyda nifer o ddewisiadau hyblyg. Awgrymir ffurf litwrgaidd traddodiadol ar gyfer cynllunio'r oedfa yma ond gellir cynllunio'r addoliad yn ôl gofyn yr amgylchiadau lleol a natur yr achlysur mewn golwg.

Yn naturiol, cyfeirir at waith Urdd Gobaith Cymru yn ystod 2019 gan hoelio sylw arbennig ar y Codi Llais a gafwyd yn Neges Ewyllys Da eleni. Byddem yn gwerthfawrogi cyfeirio at hynny, ond ceir rhyddid i fod yn greadigol.

Ar gyfer cyfoethogi'r hyn a gynigir yma cyfeiriwn at yr adnoddau addoli eang a ddarperir gan Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru. Dyma'r ddolen ar gyfer lawrlwytho adnoddau digidol: https://www.ysgolsul.com/?page_id=4315

Cyfeiriwn hefyd at yr adnoddau addoli sydd ar gael ar wefan Cymdeithas y Cymod. Dyma'r ddolen: http://www.cymdeithasycymod.org.uk/adnoddau.htm

## Gwasanaeth Cynradd

| **I gynnal y gwasanaeth hwn, bydd angen:** |
|---|
| Copi o'r nodiadau hyn |
| Copi o'r lluniau ar ddiwedd y nodiadau hyn neu'r sleidiau PwyntPwer |
| Smotiau lliwgar gludiog – coch, glas a gwyrdd – ar gyfer ryw 70% o'r plant sydd yn bresennol |
| Yr adnoddau ategol, os mynnwch |

**Paratoi:**

Cyn y gwasanaeth, paratoi stribedi gyda smotiau lliwgar ar gyfer rhyw 70% o'r plant sydd yn bresennol: rhai gydag un smotyn, rhai gyda dau. Dosbarthwch y smotiau rhwng y plant ar hap ar ddechrau'r gwasanaeth.

1. **<u>Croeso a gweithgaredd cychwynnol:</u>**

**Arweinydd:**

Croeso i wasanaeth Sul yr Urdd, 2021! Heddiw rydym yn mynd i rannu storïau am rai pobl yng Nghymru a'r tu hwnt sydd wedi gweithio i wneud y byd yn fwy teg a heddychlon.

Gofynnwch iddynt beth yw ystyr y gair '**cydraddoldeb'**. Gwahoddwch atebion gan y plant. Mae'n golygu cael yr un cyfleoedd ac adnoddau – e.e. bwyd maethlon, gofal gan deulu, addysg, iechyd– pwy bynnag ydych neu le bynnag ydych yn byw….

Dyma enghraifft fach….A ydych wedi derbyn smotyn lliwgar ar ddechrau'r gwasanaeth? Nid yw smotyn lliwgar yn golygu llawer – ond dychmygwch fod y smotyn yn golygu eich bod chi â'r hawl i dderbyn bisgïen siocled ar ddiwedd y gwasanaeth. Os oeddech yn ddigon lwcus i dderbyn dau smotyn – cewch ddwy fisgïen. Os nad oes gennych smotyn – wel, chewch chi ddim byd! Sut mae hyn yn gwneud i chi deimlo? A ydy hi'n deg?

Mae anghydraddoldeb yn effeithio'n wael ar fywydau unigolion
a chymdeithasau ac yn achosi teimladau o annhegwch ac anghyfiawnder.

## 2. Darlleniad: rhan o Neges Heddwch ac Ewyllys Da 2021

Thema Neges Heddwch ac Ewyllys Da eleni oedd cydraddoldeb i ferched. Mae'r Neges yn bwerus ac ein hatgoffa, wrth i ni geisio datrys problemau'r byd megis newid hinsawdd, na fedrwn wadu cyfleoedd i 50% o boblogaeth y byd – sef merched. **Dyma ran o'r Neges:**

Hawliau merched yw hawliau dynol

Hawliau dynol yw hawliau merched

Ni allwn achub y byd os nad yw'r byd yn gyfartal

Mae hyn yn fwy na hashtag.

Ail-feddyliwn ein geiriau

Trown y negyddol yn gadarnhaol

Nid pengaled ond pwerus.

Nid hunanbwysig, ond hyderus.

Nid cegog ond awdurdodol

Nid emosiynol ond angerddol

Ni yw ieuenctid Cymru yn sefyll gyda'n chwiorydd ar draws

y byd

Mae coronafeirws wedi stopio'r cloc.

Defnyddiwn y normal newydd i greu dyfodol gwell.

Dyfodol o addysg i bob merch.

Dyfodol o ferched llawn hyder.

Dyfodol cyfartal, o gefn gwlad i'r dinasoedd,

ar draws y byd.

3. **<u>Gweddi:</u>**
   O Arglwydd Iesu, mae Neges Heddwch ac Ewyllys Da eleni yn ein hatgoffa pa mor bwysig yw'r geiriau rydym yn eu defnyddio wrth ein gilydd. Mae gan y rhain y pŵer i greu loes neu hybu hyder. Gallant fod yn destun tristwch neu lawenydd. Dysg i ni fod yn garedig wrth ein gilydd a thrin ein gilydd â pharch bob amser. Amen.

**4. <u>Wir Ystyr Anghydraddoldeb:</u>**

**Arweinydd:**

Rydym yn deall bod cydraddoldeb i ferched yn bwysig, ond beth mae hyn yn ei olygu go iawn?

Naill ai trwy rannu Sleid PwyntPwer rhif 2 neu drwy ddarllen y gosodiadau ar dudalen 7, cyflwynwch rai ffigyrau am anghydraddoldeb merched a gofyn i'r plant ystyried yn dawel a ydynt yn wir ai peidio.  Ar ôl cyflwyno'r gosodiadau i gyd gofynnwch: 'Yn eich barn chi, faint o'r rhain sydd yn wir?  (0, 1, 2, 3, 4, 5 – i gyd?') Gofynnwch i'r plant godi llaw ar gyfer y nifer sydd yn wir, yn eu barn nhw.

Datgelwch fod y gosodiadau i gyd yn wir.  A ydy hyn yn syndod?  A ydy rhai yn peri mwy o syndod nag eraill?

Rwy yn siŵr bod rhai o'r ffigyrau hyn wedi peri sioc i chi ond pam mae hyn yn bwysig? Gofynnwch i'r plant am eu barn cyn datgelu'r rhesymau ar Sleid PwyntPwer 3 neu ar dudalen 7. Oes'na ffactorau eraill i'w hystyried?

## 5. Emyn: 'Rho imi nerth i wneud fy rhan' (Gweler y geiriau ar dudalen 12)

## 6. Merched, Heddwch a Chyfiawnder….

**Arweinydd:**

Gofynnwch i'r plant: A fedrwch chi enwi rhai merched sydd wedi gwneud pethau anghyffredin?  Arhoswch am atebion, yna naill ai ddangos Sleid PwyntPwer 4 iddynt gyda rhai enghreifftiau o ferched sydd wedi gweithio dros iechyd, addysg, heddwch a chyfiawnder – neu dangos y lluniau ar dudalen 8. A fedr y plant enwi rhai ohonynt?

Yr atebion yw:

i. Betsi Cadwaladr – a ganwyd ger y Bala yn 1789.  Gweithiodd fel nyrs ochr yn ochr â Florence Nightingale yn y Crimea
ii. Greta Thunberg – ymgyrchydd ifanc dros yr amgylchfyd
iii. Beti Campbell – prifathrawes ddu gyntaf yng Nghymru
iv. Malala Yousafzai – ymgyrchydd dros hawliau merched, yn enwedig yr hawl i gael addysg

v. Annie Jane Hughes-Griffiths, Mrs Gladys Thomas, Miss Mary Ellis a Miss Elined Prys – pwy yw'r rhain? Cewch eu stori anhygoel yn y man….

Mae'r merched hyn wedi cyflawni pethau anghyffredin oherwydd iddynt gael y cyfleoedd i wneud hyn (neu weithiau er gaethaf y ffaith nad ydynt wedi cael y cyfleoedd hynny!) Diolch i Dduw amdanynt!

7. **Stori Mrs Annie J. Hughes Griffiths a Deiseb Heddwch Menywod Cymru (!923 – 24):** Beth am ferched sydd wedi gweithio dros heddwch? Edrychwch ar y llun olaf ar Sleid 4. Pwy yw'r menywod hyn, yn eich barn chi? Ble maen nhw a beth maen nhw yn ei wneud? Gwrandewch ar y stori ryfeddol hon …..

**Dychmygwch ….**

Yn gyntaf, dychmygwch eich bod chi yn byw yng Nghymru ar ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf (1918 ymlaen). Collwyd rhyw 40,000 o ddynion o Gymru eu bywydau yn ymladd yn y Rhyfel hwnnw. Dychmygwch yr effaith a gafodd hyn ar deuluoedd a chymunedau ledled y wlad.

*(Gallwch ddangos y lluniau ar dudalen 9 - 10 neu ar Sleid 5 o'r PwyntPwer wrth adrodd y stori)*

Wrth ystyried y golled hon, does dim syndod bod awydd am heddwch wedi tyfu yn ystod y 1920au. Erbyn diwedd y degawd cafwyd dros 1,000 o ganghennau lleol o Undeb Cynghrair y Cenhedloedd yng Nghymru – sefydliad oedd yn ymgyrchu i greu trefn ryngwladol (yn debyg i'r Cenhedloedd Unedig heddiw) i sicrhau na fyddai cyflafan debyg byth yn digwydd eto.

Pe byddech yn fenyw yn y 1920au yng Nghymru nid oedd llawer o ddewisiadau gennych: dim ond lleiafrif o fenywod oedd yn gweithio ac nid oedd gan fenywod yr hawl i bleidleisio. Nid oedd hyn yn rhwystr ar **Mrs Annie J. Hughes Griffiths**, fodd bynnag (neu Mrs Peter Hughes Griffiths fel y'i gelwid hi, gan fod menywod yn cael eu henwi gan ddefnyddio enw'u gŵr!) Roedd hi yn Gadeirydd ar Undeb Cynghrair y Cenhedloedd ar y pryd, ac fe gredai'n angerddol mewn heddwch. Mewn Cynhadledd o Ferched yn Aberystwyth ar 23 Mai, 1923 cynlluniwyd ymgyrch Cymru-gyfan. Y syniad oedd **trefnu deiseb** gan gynifer o ferched â phosibl i'w

throsglwyddo i Arlywydd America, er mwyn ei berswadio i ymuno â Chynghrair y Cenhedloedd – ac felly sicrhau na fyddai rhyfel erchyll fel y Rhyfel Byd Cyntaf byth yn digwydd eto.  Am syniad uchelgeisiol!

O fewn 6 mis ym 1923 **casglwyd 390,296 o lofnodion** gan fenywod o bwyllgorau lleol yn mynd o ddrws i ddrws ledled y wlad. Tyfodd y ddeiseb i **dros 7 milltir o hyd** yn ôl y Wasg ar y pryd!  Yna, ar 3 Chwefror 1924, cychwynnodd Mrs Annie Hughes Griffiths ar daith i America (gyda'r deisebau i gyd mewn cist fawr) ac arwain dirprwyaeth o fenywod ar bererindod heddwch 2 fis o amgylch America, gan gwrdd â'r Arlywydd Coolidge ar 21 Chwefror.  Bu'r daith ar fwrdd yr SS Cedric yn para 9 diwrnod, ac fe deithiodd y criw o gwmpas America ar y trên, gan stopio i roi sgyrsiau a chwrdd â phobl ar y ffordd.  Mae'r gist gyda'r deisebau yn dal yn yr Amgueddfa Smithsonian yn Washington.

Mae'r stori yn un ysbrydoledig. Er, ar un olwg, nad oedd y merched yn llwyddiannus (ni ymunodd America â Chynghrair y Cenhedloedd ac yn 1939 daeth yr Ail Ryfel Byd) – ar y llaw arall, roedd eu hymweliad yn ysbrydoliaeth i lawer, ac mae hyn yn wir hyd heddiw.

Gallwch glywed angerdd Annie yn y geiriau hyn o'i dyddiadur: *"Annwyl Ddyddiadur, Rwy yn benderfynol o fynd ar y llong'na ac o greu heddwch.  Wna i ddim rhoi'r gorau iddi.  Fe lwydda i i gael heddwch dros Gymru…."*

**Myfyrdod….**

1. Beth ydych chi'n meddwl o'r stori hon?
2. Pa rwystrau yr oedd rhaid i Annie a'i ffrindiau eu goresgyn, yn eich barn chi?
3. Pam nad ydy stori'r ddeiseb yn fwy adnabyddus yng Nghymru?
4. Beth sydd gennym i'w ddysgu gan y stori heddiw?

**Emyn: ' Heddwch ar ddaear lawr…' (Gweler y geiriau ar dudalen 12)**

**Myfyrdod i gloi: (addasiad o rif 33, Cynghorion a Holiadau'r Crynwyr):**

'A ydych yn effro i'r ffordd mae pobl yn cael eu trin yn wahanol, oherwydd pwy neu beth ydynt neu oherwydd yr hyn maen nhw yn eu credu?  Cofiwch fod pawb yn ddynol ac yn werthfawr.  Ceisiwch ddeall beth yw achosion anghyfiawnder neu wrthdaro a chwiliwch am syniadau a datrysiadau newydd a chadarnhaol.  A ydych yn

gweithio i greu cymdeithas gyfiawn a thosturiol lle caiff pawb gyfle i ddatblygu eu galluoedd ac i feithrin eu hawydd i wasanaethu?'

# Adnoddau

**<u>Gweithgaredd 4 – Wir Ystyr Anghydraddoldeb:</u>**

**Cydraddoldeb – Gwir neu Gau?**

1. Mae merched yn cynhyrchu hyd at 80% o'r bwyd mewn gwledydd datblygol ond yn berchen ar lai na 25% o'r tir ffermio.

**2.** Mewn gwledydd datblygol mae un ym mhob tair merch wedi priodi cyn cyrraedd ei phen-blwydd yn 18.

**3.** Yn 10 glwad dlotaf y byd, mae 9 o bob 10 merch heb gwblhau'r ysgol.

**4.** Mae oddeutu 70% o'r bobl sydd mewn swyddi lleiafswm cyflog yn y DU yn ferched.

**5**. Yng Nhymru dim ond 28% o gynghorwyr lleol, 18% o Arweinyddion Cyngor a 27% o Aelodau Cabinet sy'n ferched.

**6.** Yn yr 20 mlynedd ers datganoli yng Nghymru does dim yr un Aelod Cynulliad wedi bod oedd yn fenyw, yn groenddu ac o leiafrif ethnig.

**Rhai rhesymau pam mae cydraddoldeb yn bwysig**



- Mae gwledydd sydd yn ymdrin â bechgyn a merch cynhyrchu mwy o fenywod sydd yn arweinwyr ac y
- Mae gwledydd sydd yn ymdrin â'r ddau ryw yn fwy fedalau yn y Gemau Olympaidd.
- Mae merched sydd wedi derbyn addysg yn tueddu i o blant sydd yn fwy iachus
- Mae merched sydd yn derbyn addysg yn ennill mwy o gyflog ac yn medru cynnal eu teuluoedd yn well.

1.



__Gweithgaredd 6 – Merched, Heddwch a Chyfi__

2.



3.




4.

5.


**Atebion:**


1. Betsi Cadwaladr
2. Greta Thunberg
3. Beti Campbell
4. Malala Yousafzai
5. Annie Jane Hughes-Griffiths, Mrs Gladys Thomas, Miss Mary Ellis and Miss Elined Prys

**<u>Gweithgaredd 7 - Stori Mrs Annie J. Hughes Griffiths a Deiseb Heddwch Menywod Cymru</u>**




*Y Gist yn dal y llofnodion*





WE, Women of Wales, are proud to recall that there is between our little Principality and the great country of the United States of America a close historical tie in the quest for World Peace. ¶ It was an American citizen, Elihu Burritt, who inspired our fellow-countryman Henry Richard, to organise a series of International Peace Congresses in the middle years of the nineteenth century. ¶ According to the plan of Elihu Burritt, the first Peace Conference was to have been held in Paris in the summer of 1848. So anxious was he about the task of international reconciliation that he proceeded alone to Paris in order to make the preliminary arrangements. He failed in Paris. Then, accompanied by Henry Richard, he went to Brussels, & a memorable Conference was held here in September, 1848, attended by two hundred delegates from America & Great Britain. Thus the work of building the Temple of Peace was begun through the united efforts of the American from Connecticut and the Welshman from Tregaron. ¶ When, sixty six years later, in 1914, the Temple of Peace was, as it seemed to us shattered to its foundations, America was always in our thought, and it is no exaggeration to say that a thrill of joy was felt in many of our homes when the United States of America decided to enter the World War and make common sacrifice with us. It is the recollection of the comradeship between an American citizen and a son of Wales in the cause of Peace, together with the knowledge of our joint sacrifice in the agony of War, that emboldens us to address to you this appeal. ¶ We are not actuated by any political motives.

We speak simply as the Women of Wales - the daughters of a nation whose glory it has been to cherish no hatred towards any land or people, and whose desire is for the coming on earth of the reign of fellowship and goodwill. We long for the day when the affairs of nations shall be subject no longer to the verdict of the sword. And we feel that the dawn of the Peace which shall endure would be hastened were it possible for America to take her place in the Council of the League of Nations. ¶ How that is to be done we do not know; but we do know that upon the two great peoples who did so much to decide the fortune of the War rests largely the burden of winning that lasting peace without which all that is dear to us must perish. We rejoice in the measure of co-operation which has already been achieved by America and Britain, with other nations at Washington in the limitation of naval armaments, and at Geneva in the humanitarian measures to put an end to the detestable traffic in women and children and also in the maturing of plans for combating the trade in opium and in other noxious drugs. And we hail with delight the movement now on foot to secure for America, with her noble traditions, direct participation in the functions of the Permanent Court of International Justice. ¶ The future is big with hope if we, as the women of this generation, do our part. To us has come an opportunity as real as the responsibility is grave. We would, therefore, appeal to you, Women of the United States of America, "with malice towards none, with charity for all, with firmness in the right as God gives us to see the right," to aid in the effort to hand down to the generations which come after us the proud heritage of a warless world.



Western Mail. – 5.2.1924.

FROM THE WOMEN OF WALES.

Mrs. Hughes Griffiths leaving London on Saturday carrying the memorial from the Women of Wales to the Women of America. She is holding the memorial in her hands.

[Sport and General.




Cwrdd â'r Arlywydd Coolidge yn America


****Gweler hefyd** - 'Dyddiadur Annie' – Datgelu Stori Deiseb Heddwch Menywod Cymru i America (Ffilm yn Saesneg ar YouTube) :

https://www.youtube.com/watch?v=M9wy6Cuar4I

## Gweithgaredd Ategol

Er nad yw hi yn dod o Gymru, wrth gwrs, mae hanes Malala Yousafzai hefyd yn un sydd yn medru ysbrydoli pobl ifanc am botensial merched i greu newid. Mae ei stori hi isod, a gallwch ddefnyddio hyn fel gweithgaredd ategol, os mynnwch.

### Malala Yousafzai: Ymgyrchydd dros Addysg i Ferched:



*Cafodd Malala Yousafzai ei geni ar 12 Gorffennaf, 1997, ym Mingora, Pacistan. Aeth i ysgol a sefydlwyd gan ei thad, Ziauddin Yousafzai. Ar ôl i'r Taliban ddechrau ymosod ar ysgolion i ferched yn Swat, rhoddodd Malala sgwrs yn Peshawar, Pacistan, ym mis Medi 2008. Teitl y sgwrs oedd: "Sut mae'r Taliban yn meiddio cymryd i ffwrdd fy hawl i addysg?"*

*Yn gynnar yn 2009, dechreuodd Malala greu blogiau i'r BBC am fyw gyda bygythiadau'r Taliban i wahardd ei hawl i addysg. Defnyddiodd y ffugenw Gul Makai i guddio pwy oedd hi go iawn. Fodd bynnag, ym mis Rhagfyr y flwyddyn honno datguddiwyd mai hi oedd y blogiwr.*

*Pan oedd hi'n 14, darganfyddai Malala a'i theulu fod y Taliban wedi bygwth ei lladd. Er bod Malala yn ofni am ddiogelwch ei thad a oedd yn ymgyrchydd yn erbyn y Taliban, nid oedd ei theulu yn credu y byddai'r grŵp ffwndamentalaidd yn niweidio plentyn. Fodd bynnag, ar 9 Hydref, ar ei ffordd adre o'r ysgol, daeth dyn ar y bws yr oedd hi'n teithio arno a gofyn pa ferch oedd Malala. Pan edrychodd ffrindiau Malala arni, saethodd y dyn tuag ati, gan ei tharo ar ochr chwith ei phen. Cafodd dwy ferch arall eu hanafu yn yr ymosodiad.*

*Ers dod dros ei hanafiad, mae Malala wedi dod yn ymgyrchydd rhyngwladol dros hawl plant i gael addysg. Ar ei phen-blwydd yn 16 rhoddodd hi sgwrs i'r Cenhedloedd Unedig ar y thema hon. Yn 2014 enillodd hi'r Wobr Heddwch Nobel.*

**Trafod:**

1. Beth yn hanes Malala sydd yn gwneud yr argraff fwyaf arnoch?
2. A ydy hi'n arwres? Pa rinweddau sydd ganddi?
3. Pa ffactorau helpodd hi i lwyddo yn ei hymgyrch, yn eich barn chi?

**Ymateb:**

- **Dychmygwch y sgwrs o gwmpas y bwrdd swper** yn nhŷ rhieni Malala wrth glywed bod y Taliban wedi bygwth ei lladd hi. Ysgrifennwch sgript!
- Rydych yn un o ffrindiau Malala oedd ar y bws gyda hi pan gafodd hi ei saethu. **Ysgrifennwch adroddiad** o'r hyn ddigwyddodd yn union, a sut oedd pobl yn teimlo.

## Yr Emynau

**Rho imi nerth i wneud fy rhan  (E. A. Dingley; c. W. Nantlais Williams)**

Rho imi nerth i wneud fy rhan
I gario baich fy mrawd;
I weini'n dirion ar y gwan
A chynorthwyo'r tlawd.

Ehanga 'mryd, a gwared fi
Rhag culni o bob rhyw,
Rho imi weld pob mab i Ti
Yn frawd i mi, O! Dduw.

Gad imi weld dy wyneb Di,
Ym mhob cardotyn gwael,
A dysgu'r wers i wneuthur hyn
Er mwyn dy gariad hael.

**Heddwch ar Ddaear Lawr  (**Seymour Miller a Jill Jackson cyf. Harri Williams)

Heddwch ar ddaear lawr, gan ddechrau'n fy nghalon i,
heddwch ar ddaear lawr, yr hedd a fwriadwyd i ni;
a Duw'n Dad trugarog, brodyr oll ŷm ni,
cerddwn oll gyda'n gilydd, mewn hedd a harmoni.

Dechrau'n fy nghalon i, a dechrau y foment hon,
ar hyd fy nhaith drwy'r byd, rwy'n addo yn ddwys a llon
i greu bob munud a byw bob munud mewn hedd a harmoni
heddwch ar ddaear lawr, gan ddechrau'n fy nghalon i.